## Cynnwys

Cyfnod Atal Byr – Cwestiynau Busnesau am y Rhesymeg a'r Amserlen .... 1
Busnesau sy'n Gorfod Cau - Cymorth .... 1
Busnesau sy'n Gorfod Cau – Cyfyngiadau Masnachu .... 2
Busnesau sy'n Aros ar Agor – Trefniadau Teithio a Llety Staff .... 3
Busnesau sy'n Aros ar Agor – Gweithredu .... 4
Busnesau Bwyd, gan gynnwys archfarchnadoedd .... 5
Y cymorth y gall y Sector Manwerthu ei gynnig .... 6
Gwybodaeth i Gyflogeion / Pobl Hunangyflogedig am y cyfnod atal byr .... 6

## Cyfnod Atal Byr – Cwestiynau Busnesau am y Rhesymeg a'r Amserlen

**C A yw fy musnes yn cael agor?**

A Rhestrir yr holl fusnesau sy'n gorfod cau yn y Rheoliadau Mae'r rheoliadau yn cynnwys rhestr o'r busnesau a'r gwasanaethau sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau neu sy'n gorfod cau. Mae'r rhestr i'w gweld ar dudalen 37 o'r rheoliadau.

**C Pryd fydd fy musnes yn cael ailagor?**

A Deallwn y bydd angen i fusnesau roi cynlluniau ar waith i ailagor.

Bydd y mesurau hyn ar waith rhwng 6pm ddydd Gwener 23 Hydref a dechrau dydd Llun 9 Tachwedd 2020. Caiff eich busnes ailagor am 00:01 ddydd Llun 9 Tachwedd.

**C A oes disgwyl i fusnesau nad ydynt yn hanfodol sy'n gorfod cau roi'r gorau i bopeth maent yn ei wneud erbyn 6pm ddydd Gwener?**

Oes. Daw'r rheoliadau i rym am 6pm ddydd Gwener.

**C Beth fydd yn digwydd wedyn?**

A Ar ôl i'r cyfnod atal byr ddod i ben, caiff set newydd o reolau cenedlaethol eu cyflwyno, a fydd yn nodi sut y gall pobl gwrdd a sut y gall y sector cyhoeddus a busnesau weithredu.

## Busnesau sy'n Gorfod Cau - Cymorth

**C:Pa dystiolaeth sydd bod busnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol yn cyfrannu at y niferoedd cynyddol?**

A Rydym yn cydnabod yr ymdrechion anferthol y mae busnesau wedi'u gwneud i fod yn ddiogel. Nid yw'r gofyniad hwn i gau yn ystod y cyfnod atal byr yn

bwrw sen ar yr ymdrechion hynny, ac rydym yn gwerthfawrogi mai dim ond cyfraniad isel neu gymedrol y mae rhai amgylcheddau busnes yn ei wneud at y risg o drosglwyddo'r feirws. Ond ar y cam hwn, mae'n bwysig lleihau unrhyw gyfraniad at ledaenu'r feirws, a dyna'r rheswm dros ei gwneud yn ofynnol i rai busnesau gau dros dro.

**C Pa gymorth sydd ar gael i fusnesau sy'n gorfod cau?**

A Datblygwyd pecyn cymorth gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth y DU.

Mae cronfa newydd gwerth £300 miliwn ar gael i gefnogi busnesau y bydd y cyfnod atal byr yn effeithio arnynt, a bydd yn agor yr wythnos nesaf:

- Bydd pob busnes sy'n cael eu cwmpasu gan ryddhad ardrethi i fusnesau bach yn derbyn taliad o £1,000.
- Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch bach a chanolig sy'n gorfod cau yn cael un taliad o hyd at £5,000.
- Hefyd, bydd cymorth a grantiau dewisol ychwanegol ar gael i fusnesau llai sy'n ei chael hi'n anodd.
- Bydd y gronfa £80 miliwn a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf i helpu busnesau i ddatblygu yn y tymor hwy yn cynyddu i £100 miliwn, sy'n cynnwys £20 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer twristiaeth a lletygarwch.

Bydd busnesau hefyd yn gallu cael cymorth drwy'r Cynllun Cadw Swyddi presennol neu'r Cynllun Cefnogi Swyddi estynedig newydd.

Ewch ati i gael Cymorth COVID-19 ar gyfer eich busnes yma

**C A fydd unrhyw gefnogaeth i lesiant meddwl staff yn ystod y cyfnod hwn?**

A Fel Llywodraeth, mae llesiant pawb yn hollbwysig yn ystod y cyfnod hwn. Gellir cael cyngor i gyflogeion a chyflogwyr yn https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cymru-iach-ar-waith/

## Busnesau sy'n Gorfod Cau – Cyfyngiadau Masnachu

**C Beth yw'r rheolau i fusnesau nad ydynt yn hanfodol?**

A Ni allwch agor i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallwch wneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio, neu waith arall, er mwyn sicrhau bod y lle yn addas at y diben unwaith y bydd y cyfyngiadau yn cael eu llacio.

Mae gwybodaeth ar gael yn ein canllawiau ar-lein.

**C A all canolfannau garddio aros ar agor?**

A Na, rhaid i ganolfannau garddio gau.

**C Beth os oes neuadd fwyd yn fy nghanolfan arddio, a all hon aros ar agor?**

A Rhaid i ganolfannau garddio gau ond gallant gynnig gwasanaethau danfon i'r cartref.

**C Mae fy musnes ar y rhestr o fusnesau sy'n gorfod cau, sut y gallwn fasnachu?**

A Rhaid i chi aros ar gau i'r cyhoedd ond gallwch gynnig gwasanaeth danfon i'r cartref.

**C A allwn barhau i ddarparu gwasanaeth trwsio offer trydanol a mynd i mewn i gartref cwsmer er mwyn trwsio cyfarpar allweddol?**

A Gallwch, mae gwaith trwsio brys yn rheswm dilys dros wneud gwaith yng nghartref rhywun. Dim ond os bydd y gwaith ar frys neu os bydd angen trwsio nam sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch pobl y gellir gwneud gwaith y tu mewn i gartrefi pobl eraill – er enghraifft, plymio brys neu waith addasu er mwyn caniatáu i'r aelwyd honno aros yn y cartref, neu os bydd y cartref yn wag. Ni ddylid gwneud unrhyw waith yng nghartref rhywun arall os bydd y gweithiwr neu unrhyw un ar yr aelwyd yn **hunanynysu** neu'n dangos **symptomau COVID-19**, ni waeth pa mor ysgafn.

## Busnesau sy'n Aros ar Agor – Trefniadau Teithio a Llety Staff

**C Mae fy musnes wedi'i ddosbarthu fel un hanfodol a bydd yn aros ar agor. A all fy ngweithwyr deithio i'r gwaith?**

A Gallant, mae teithio i'r gwaith yn cael ei ystyried yn rheswm rhesymol dros deithio. Dylai unrhyw staff a all gyflawni swyddogaethau gartref gael eu cefnogi i wneud hynny lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. Os na all eich staff weithio'n effeithiol gartref, nad oes ganddynt symptomau COVID ac nad yw'n ofynnol i'ch busnes gau, dylid sicrhau eich staff y gallant deithio i'r gwaith yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Cydnabyddwn na all pobl mewn rhai sectorau, megis gweithgynhyrchu ac adeiladu, weithio gartref.

Rydym yn annog gweithwyr a chyflogwyr yn y sectorau hyn i barhau i wneud popeth o fewn eu gallu i weithredu'n ddiogel a lleihau lledaeniad y feirws yn ystod y cyfnod atal byr.

Nid oes angen i'ch staff gario llythyr yn dangos eu bod yn weithwyr allweddol.

**C Mae ein staff yn teithio at ddibenion gwaith ac mae angen iddynt aros mewn llety dros nos – a allwn drefnu llety dros nos iddynt?**

A Mae angen i westai a mathau eraill o lety gau ond gallant ddarparu gwasanaethau dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru neu awdurdodau lleol. Gweithwyr allweddol, a'r rhai sy'n gweithio mewn sectorau a all aros ar agor ond nad yw'n ymarferol iddynt weithio gartref, megis ar gyfer chwaraeon proffesiynol. Bydd angen i fusnesau siarad â'u hawdurdod lleol i gael eglurhad o'r rheolau yn eu hardal.

**C A all y ffreutur staff aros ar agor?**

A Dim ond os nad oes dewis amgen ymarferol i'r staff yn y weithfan honno gael gafael ar fwyd y gall ffreutur staff aros ar agor.

## Busnesau sy'n Aros ar Agor – Gweithredu

C **O ble y gall fy nghwsmeriaid deithio?**

A Caiff pobl eu cynghori i osgoi teithio'n ddiangen a dylent deithio i'w siopau agosaf ar gyfer eu hanghenion siopa hanfodol. Mae'r angen i aros o fewn ffiniau bwrdeistref sirol wedi'i ddileu yn ystod y cyfnod atal byr.

**C A oes modd cynnig gwasanaeth clicio a chasglu / casglu gan gwsmeriaid?**

A Oes, ond dim ond os oes hawl gan eich busnes i aros ar agor ac ar yr amod eich bod yn rhoi system ddiogel ar waith ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ac nad yw'r cwsmer yn dod i mewn.

CA ellir casglu eitemau nad ydynt yn hanfodol a archebir ar-lein drwy wasanaeth clicio a chasglu os bydd y cwsmer yn y siop yn prynu pethau hanfodol beth bynnag?

A Dim ond siopau sy'n cael bod ar agor a all barhau i gynnig gwasanaethau clicio a chasglu, a dim ond ar gyfer eitemau y mae hawl eu gwerthu yn y siop y dylid cynnig y gwasanaethau hyn lle y bo modd. Gweler ein canllawiau ar-lein ar gyfer gwasanaethau clicio a chasglu.

**C A allaf danfon nwyddau i gartrefi fy nghwsmeriaid?**

A Gallwch, caniateir danfon nwyddau i gwsmeriaid. Caiff mannau gollwng danfoniadau hefyd aros ar agor.

**C Mae fy musnes manwerthu yn cael aros ar agor. A oes cyfyngiadau o ran y nwyddau y gallwn eu gwerthu?**

A Oes, gweler ein canllawiau ar-lein am eglurhad.

**C A all siopau DIY, megis haearnwerthwyr a gwerthwyr defnyddiau adeiladu, aros ar agor?**

A Gallant, mae siopau DIY yn allweddol er mwyn caniatáu i waith atgyweirio hanfodol gael ei wneud ar adeiladau ac i gyflawni gwaith adeiladu arall. Fodd bynnag, lle y bo modd, dylai pobl osgoi ymweld â'r siopau hyn yn ddiangen, a dylid defnyddio opsiynau amgen megis gwasanaethau ar-lein a danfon i'r cartref.

**C A all manwerthwyr hanfodol aros ar agor os ydynt wedi'u lleoli mewn canolfannau siopa sy'n gorfod cau?**

A Gallant. Gall manwerthwyr hanfodol aros ar agor, hyd yn oed os ydynt wedi'u lleoli mewn canolfannau siopa.

**C A all siopau papurau newydd aros ar agor? Mae swyddfeydd post yn aml wedi'u lleoli mewn siopau papurau newydd.**

A Gallant, caiff siopau papurau newydd aros ar agor.

**C A all siopau beiciau aros ar agor?**

A Gallant, caiff siopau beiciau aros ar agor.

**C A all manwerthwyr sy'n cael aros ar agor werthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol?**

A Gweler ein canllawiau ar-lein am eglurhad.

**C A all prosiectau adeiladu fynd yn eu blaen?**

A Gallant, ni fu'n ofynnol i'r sector adeiladu gau. Gall prosiectau adeiladu fynd yn eu blaen.

**C A all cwmnïau llogi peiriannau aros ar agor?**

A Gallant, gall cyflenwyr i'r diwydiant adeiladu aros ar agor.

**C A ellir danfon nwyddau i mewn i gartref cwsmer?**

A Gellir, ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel a bod y gweithiwr ac aelodau'r aelwyd yn iach, ac nad oes ganddynt unrhyw rai o symptomau'r coronafeirws. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai pobl ystyried a all y gwaith gael ei ohirio'n ddiogel nes i'r cyfnod atal byr hwn ddod i ben.

Gweler ein canllawiau ar-lein ar 'weithio yng nghartrefi pobl' i gael eglurhad.

## Busnesau Bwyd, gan gynnwys archfarchnadoedd

**C A all cwsmeriaid brynu bwyd a diod i'w fwyta a'i yfed oddi ar y safle?**

A Nid oes angen i fanwerthwyr bwyd, gan gynnwys marchnadoedd bwyd, archfarchnadoedd, siopau cyfleustra, siopau cornel a sefydliadau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w yfed oddi ar y safle, gau.

Ni chaiff cwsmeriaid fwyta nac yfed y nwyddau a brynir ar y safle. Yn hytrach, gall cwsmeriaid brynu bwyd a diod i'w fwyta a'i yfed oddi ar y safle drwy wasanaethau tecawê, gyrru drwodd, danfon a chlicio a chasglu.

Dylai'r rhain gael eu darparu mewn ffordd ddiogel sy'n atal lledaeniad COVID-19. Ni ddylai cwsmeriaid deithio ymhell i gasglu tecawê.

**C A all tryciau coffi a faniau byrgyrs aros ar agor?**

A Gallant, dylid eu darparu mewn ffordd ddiogel sy'n atal lledaeniad COVID-19. Ni ddylai cwsmeriaid deithio ymhell i gasglu tecawê.

**C Rydym yn fanwerthwr hanfodol. A allwn barhau i werthu'r holl nwyddau sydd yn y siop?**

A Ni ellir gwerthu na chyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

## Y cymorth y gall y Sector Manwerthu ei gynnig

**C Pa gymorth y gall manwerthwyr ei ddarparu?**

A Cyfnod atal byr, wedi'i ddiffinio'n benodol, yw hwn. Rydym yn gobeithio y bydd manwerthwyr hanfodol yn parhau i roi negeseuon clir.

Gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- parhau i ymddwyn yn gyfrifol er budd eich cwsmeriaid a'ch staff
- bwrw golwg dros eich gweithdrefnau iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i gynnal y safonau hylendid a chadw pellter cymdeithasol angenrheidiol
- sicrhau bod eich cwsmeriaid yn cael cyfarwyddyd clir ar sut i ddod i mewn i'ch safle, mynd o'i amgylch a'i adael mewn ffordd sy'n cadw pellter cymdeithasol
- lle y bo angen, gosod arwyddion clir ar gadw pellter cymdeithasol a gwisgo masgiau, neu osod arwyddion newydd yn lle'r rhai sydd gennych eisoes,
- parhau i ddarparu cyfleusterau glanhau dwylo, basgedi a throlïau

## Gwybodaeth i Gyflogeion / Pobl Hunangyflogedig am y cyfnod atal byr

**C Rwy'n gweithio i fusnes a fydd yn gorfod cau/y mae'r rheoliadau hyn yn effeithio arno. A fydd cymorth ariannol ar gael i gefnogi fy swydd?**

A Bydd, dylai busnesau cymwys y mae COVID-19 yn effeithio arnynt allu cael y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth y DU drwy'r Cynllun Cadw Swyddi presennol neu'r Cynllun Cefnogi Swyddi estynedig newydd.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cynhwysfawr o gymorth ariannol, gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd gwerth £300 miliwn a fydd ar agor ar gyfer ceisiadau o'r wythnos yn dechrau 26 Hydref 2020.

**C Rwyf ar gontract dim oriau ac mae fy nghyflogwr newydd ddweud wrthyf na fydd gennyf unrhyw waith yn ystod y cyfnod atal byr, beth allaf ei wneud?**

A Efallai y byddwch yn gallu cael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. Rydym wedi llacio'r rheolau ynghylch Taliadau Cymorth mewn Argyfwng o dan y Gronfa hon fel bod y bobl y mae COVID-19 yn effeithio arnynt yn cael eu cefnogi'n well. Os byddwch yn cael llai o waith neu ddim gwaith o gwbl oherwydd COVID-19, gallwch hefyd wneud cais am Gredyd Cynhwysol.

**C Rwy'n unigolyn hunangyflogedig/llawrydd a bydd angen i mi roi'r gorau i weithio oherwydd y cyfnod atal byr, a allaf gael unrhyw gymorth neu grantiau?**

A Efallai y gallwch hawlio cymorth ariannol drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig. Hefyd, gall unigolion llawrydd sy'n gweithio yn y sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru wneud cais drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol sy'n targedu'n benodol y rhai yn y sector llawrydd y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt fwyaf.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi £25m i awdurdodau lleol ddarparu **grant dewisol** i fusnesau sydd ar gau neu y mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol arnynt nad ydynt yn talu ardrethi busnes ac felly nad ydynt yn gymwys i gael grantiau sy'n gysylltiedig ag Ardrethi Annomestig. Gall busnesau cymwys wneud cais am grant o £1.5k, a bydd y rhai mewn ardal lle cafwyd 21 diwrnod neu fwy o gyfyngiadau lleol cyn y cyfnod atal byr cenedlaethol yn gymwys i gael £500 ychwanegol.

**C Nid wyf yn siŵr pa mor ddifrifol wael y gallwn i fynd pe bawn i'n dal y coronafeirws ac a ddylai fy nghyflogwr wneud newidiadau i'r gwaith rwyf yn ei wneud i'm cadw'n fwy diogel – beth ddylwn i ei wneud?**

Dylech edrych i weld a ydych yn wynebu risg uwch o symptomau mwy difrifol os byddwch yn dod i gysylltiad â rhywun â COVID-19 drwy gwblhau adnodd asesu risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu (dolen isod). Dylech drafod y canlyniadau â'ch cyflogwr fel y gall gymryd camau priodol yn seiliedig ar y lefel o risg rydych yn ei hwynebu. Dylech hefyd siarad â'ch cynrychiolydd undeb llafur os ydych yn aelod o undeb.

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-08/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu-iechyd-2020-08-12.pdf

**C Credaf y bydd y rheoliadau hyn yn cael effaith ddifrifol ar fy incwm – o ble y gallaf gael cymorth ariannol?**

A Efallai y byddwch yn gallu cael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. Rydym wedi llacio'r rheolau ynghylch Taliadau Cymorth mewn Argyfwng o dan y Gronfa hon fel bod y bobl y mae COVID-19 yn effeithio arnynt yn cael eu cefnogi'n well. Os byddwch yn cael llai o waith neu ddim gwaith o gwbl oherwydd COVID-19, gallwch hefyd wneud cais am Gredyd Cynhwysol.

**C Mae fy nghyflogwr wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru ond mae nawr yn diswyddo staff, beth ddylwn i ei wneud?**

A Bydd angen i unrhyw gyflogwr sydd wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru barhau i fodloni'r amodau sydd ynghlwm â'r arian hwnnw. Mae'r amodau hyn yn amrywio ac nid ydynt o reidrwydd yn atal cyflogwr rhag diswyddo pobl.

**C Mae fy nghyflogwr wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru ond mae'n gwrthod fy rhoi ar ffyrlo, beth ddylwn i ei wneud?**

A Diben y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cefnogi Swyddi ar ei ôl yw helpu cyflogwyr i dalu cyflogau'r cyflogeion hynny nad oes ganddynt ddigon o waith. Bydd cyflogwyr yn defnyddio'r cynlluniau hyn yn ôl eu disgresiwn ac nid ydynt yn amodol ar arian gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, disgwyliwn i gyflogwyr ddefnyddio cyfuniad o'r holl gymorth sydd ar gael ar lefel y DU ac ar lefel Cymru i ddiogelu cynifer o swyddi â phosibl. Gallwch ofyn i'ch cyflogwr pam nad yw'n eich rhoi ar 'ffyrlo' a/neu geisio cymorth eich undeb llafur.

**C Roeddwn i'n rhywun a gafodd ei gynghori i warchod yn flaenorol ac ar ffyrlo. Nawr mae fy nghyflogwr yn dweud na allaf weithio gartref, beth allaf ei wneud?**

A Mae dyletswydd gofal ar eich cyflogwr i ddiogelu eich iechyd a'ch diogelwch yn y gwaith, ac mae hyn yn cynnwys deall os ydych mewn categori risg uwch. Os na allwch ddod i gytundeb gyda'ch cyflogwr a'ch bod o'r farn bod eich iechyd a'ch diogelwch yn y fantol, dylech gysylltu â'ch undeb llafur (os ydych yn aelod) neu geisio cyngor ar eich hawliau yn y gwaith gan Acas https://www.acas.org.uk/.

**C Rwy'n aelod newydd o staff/nid oeddwn ar ffyrlo o'r blaen a nawr nid yw fy nghyflogwr yn gymwys o dan y Cynllun Cadw Swyddi ond mae'n gorfod/dewis cau, beth yw fy opsiynau?**

A Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU ddechrau cynnig y Cynllun Cefnogi Swyddi yn gynt er mwyn atal busnesau rhag gorfod defnyddio dwy system a sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer y swyddi hynny nad oeddent ar ffyrlo o'r blaen. Gwnaethom gynnig ariannu'r gwahaniaeth ond gwrthododd Llywodraeth y DU y cais hwn.

Rydym yn dal i boeni na fydd rhai swyddi yn gymwys i gael eu cofrestru o dan y Cynllun Cadw Swyddi yn ystod ei wythnos olaf. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU ddileu'r gofyniad i gyflogeion, y caiff y Cynllun Cadw Swyddi ei hawlio ar eu cyfer am y cyfnod hwn, fod wedi bod ar ffyrlo o'r blaen.

Cydnabyddwn y bydd cyflogwyr heb incwm am eu bod yn gorfod cau yn wynebu'r penderfyniad anodd o dalu cyflogau neu ddiswyddo pobl. Byddem yn disgwyl i gyflogwyr ddefnyddio ein Cronfa Cadernid Economaidd i ddiogelu cynifer o swyddi â phosibl.

Ar 22 Hydref cyhoeddodd Llywodraeth y DU rai newidiadau i'r Cynllun Cefnogi Swyddi gwreiddiol sy'n ymestyn cymorth i fusnesau nad oes rhaid iddynt gau o dan y gyfraith, ond y mae'r cyfyngiadau yn cael effaith sylweddol arnynt.

https://www.gov.uk/government/news/plan-for-jobs-chancellor-increases-financial-support-for-businesses-and-workers

DIWEDD.